

## FFURFLEN GWYNO FFURFIOL MYFYRWYR (AFLONYDDU A BWLIO)

Defnyddir y ffurflen hon gan fyfyrwyr i roi gwybod yn ffurfiol am achosion o aflonyddu a bwlio. Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylech chi ddarllen y Polisi Aflonyddu a Bwlio ar gyfer Myfyrwyr.

Fe'ch atgoffir y gellir cysylltu ag Undeb y Myfyrwyr ar unrhyw adeg am gyngor a chymorth ar unrhyw fater a bod modd i'r Brifysgol roi ystyriaeth ffurfiol i gyhuddiadau o fwlio ac aflonyddu a ddaw trwy law Undeb y Myfyrwyr.

Dylid teipio'r ffurflen, neu eu ei llenwi mewn inc du a'i hanfon i Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiadau Myfyrwyr) (Cyf: aflonyddu a bwlio). Rhaid llenwi pob adran ar y ffurflen. Argymhellir bod y myfyrwyr yn cadw copi o'r ffurflen.

Rhaid i gwynion ffurfiol ynghylch aflonyddu a / neu fwlio ddod i law **ymhen 1 mis fan bellaf** ar ôl i'r weithdrefn anffurfiol ddod i ben (pan fo'n briodol) ac fel arfer **ymhen 6 mis fan bellaf** ar ôl i'r prif faterion y cwynir amdanynt ddigwydd. Ystyrir bod cwynion ffurfiol o aflonyddu a/neu fwlio a ddaw i law ar ôl y dyddiadau terfynol wedi mynd dros eu dyddiad ac ni cheir eu hystyried oni bai fod tystiolaeth annibynnol i ddangos bod rhesymau cryf pam na chodwyd y gŵyn ffurfiol o aflonyddu a/neu fwlio mewn da bryd. Ni fydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw gŵyn ffurfiol o aflonyddu a/neu fwlio lle digwyddodd y prif faterion y cwynir amdanynt dros dair blynedd cyn i'r gŵyn ffurfiol ac aflonyddu a/neu fwlio ddod i law.

Bydd Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr) yn cydnabod ei bod wedi cael eich cwyn ffurfiol o aflonyddu a/neu fwlio fel arfer ymhen 5 diwrnod gwaith clir. Os na chewch chi gydnabyddiaeth ymhen 5 diwrnod gweithio clir, dylech chi gysylltu â Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol i sicrhau bod eich cwyn ffurfiol o aflonyddu a/neu fwlio wedi dod i law mewn gwirionedd.

Rhaid anfon ffurflenni wedi eu llenwi naill ai trwy'r e-bost neu'r post i:

<b><u>(ar gyfer yr e-bost)</u></b>	<b><u>(ar gyfer y post)</u></b>
E-bost: secases@pcydds.ac.uk Pwnc: aflonyddu a bwlio	Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiadau Myfyrwyr) Campws Abertawe Mount Pleasant Abertawe SA1 6ED

Bydd y Brifysgol yn cydnabod bod eich cwyn ffurfiol wedi dod i law ac yn anfon unrhyw ddiweddariadau a chanlyniad atoch trwy'r e-bost; o'r herwydd, mae'n bwysig eich bod yn gwirio eich cyfrifon e-bost Prifysgol a phersonol yn rheolaidd.

**Mae'r ffurflen hon ar gael ar ffurf electronig ar y tudalennau gwefan canlynol:**

**ADRAN A:**

**Cofnodi Manylion Myfyrwyr**

Enw Myfyriwr:			
Rhif Myfyriwr:			
Cyfeiriad Cyswllt:			
Rhif Ffôn Cyswllt:			
Cyfeiriad e-bost:			
Rhaglen Astudio:			
Lefel astudio:			
Dull astudio:	<input type="checkbox"/> Amser llawn	<input type="checkbox"/> Rhan-amser	<input type="checkbox"/> Dysgu o Bell
Cyfadran/Ysgol/Canolfan (fel y bo'n berthnasol):			
Campws:			

**ADRAN B: Manylion y gŵyn o aflonyddu a bwlio**

Nodwch yr unigolyn neu'r unigolion yr hoffech chi wneud cwyn yn eu cylch.

(bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

**Manylion y gŵyn**  
Nodwch union natur eich cwyn. Nodwch unrhyw ddigwyddiadau, dyddiadau neu amseroedd sy'n berthnasol yn eich barn chi.

(bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

**Tystiolaeth ategol:** Rhestrwch a disgrifio'r dogfennau a atodwyd gennych i gefnogi'ch datganiad. Os rhestrwch dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'ch cwyn, bydd gofyn i chi ei chyflwyno neu roi dyddiad ar gyfer ei chyflwyno.

(bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

Mae'n bosibl y bydd Swyddfa'r Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (Profiadau Myfyrwyr) yn cysylltu â chi er mwyn ceisio rhagor o eglurder neu drefnu cyfarfod ynghylch eich cwyn.

### **ADRAN C: Manylion gweithdrefnau anffurfiol**

Yn dibynnu i raddau helaeth, wrth gwrs, ar ddifrifoldeb yr aflonyddu a / neu'r bwlio, cyn i unrhyw weithdrefnau ffurfiol ddechrau, efallai y bydd yn fwy priodol defnyddio dull anffurfiol yn gyntaf. Cynigia'r Brifysgol gymorth i fyfyrwyr yn rhan o unrhyw ddulliau anffurfiol gan ei bod yn cydnabod ei bod yn aml yn anodd i fyfyrwyr yr effeithir arnynt gan aflonyddu neu fwlio fynd i'r afael â hyn ar eu pennau eu hunain. Mater i'r achwynydd, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yw penderfynu a ddylid defnyddio llwybr anffurfiol ai peidio.

Ydych chi wedi trafod eich cwyn ag aelod o'r staff yn rhan o weithdrefnau anffurfiol:

Ydw:  Nac ydw:

Enw'r aelod o'r staff y gwnaethoch chi'r gŵyn hon iddo yn wreiddiol.

(bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

Pan fo'n briodol, rhwch fanylion y gweithdrefnau anffurfiol ac unrhyw ganlyniadau a rhoi manylion pam yr hoffech chi bellach wneud cwyn ffurfiol.

(bydd y blwch hwn yn ehangu wrth i chi deipio neu cewch chi amgáu taflenni ychwanegol)

Mae'r wybodaeth yr wyf wedi ei rhoi yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rhoddaf ganiatâd i'r wybodaeth hon gael ei datgelu i swyddogion perthnasol y Brifysgol sy'n gyfrifol am ystyried cwynion ac i unrhyw aelodau o'r staff a enwir yn y gŵyn. **Mae cyflwyno dogfennau ffug neu wybodaeth dwyllodrus yn fater difrifol a gellir ymdrin â hyn o dan y Gweithdrefnau Disgyblu. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wirio dilysrwydd unrhyw ddogfen(nau) a gyflwynir gennych neu ddatganiadau a wnewch yn y gŵyn hon.**

**Llofnod y Myfyriwr:**

**Dyddiad:**

Ticiwch y blwch hwn os dymunwch i gopi o'ch cwyn ynghylch aflonyddu a/neu fwlio gael ei anfon i Undeb y Myfyrwr.

Sylwer: Gall Undeb y Myfyrwr roi cyngor a chymorth ar unrhyw adeg yn ystod y broses o ystyried eich cwyn o aflonyddu a bwlio.